

Ar ddydd Mawrth 17eg Mehefin 2008 cynhaliwyd Cyfarfod o Gyngor Cymuned Trefeurig yn Ysgol Trefeurig am 7.00 pm.

PRESENNOL: Y Cyng. Mr Richard Owen (Cadeirydd); Mrs Gwenan Price; Mrs Edwina Davies; Mrs Kari Walker; Msri Trefor Davies; Mervyn Hughes; Dai R Morgan; David Sheppard; Tegwyn Lewis; Melvyn Evans; Daniel Jones a'r clerc

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r Cyfarfod ac arwyddodd y Msri M Evans a D Sheppard eu ffurflenni datganiad derbyn swydd gan ymrwmo i gadw at y cod ymddygiad.

2400 Derbyniwyd **ymddiheuriadau am absenoldeb** gan y Cyng. Sir, D Suter

2401 Materion Personol: Dim

2402 Datgan Diddordeb Personol: Datganodd y Cyng. T Davies ddiddordeb yng Nghofnod 2426, hawlio costau teithio; & Cofnod 2431 Cais Cynllunio A080582 (perchennog y tir). Gadawodd y Cyfarfod tra roedd y materion hyn yn cael eu trafod.

2403 Cadarnhau Cofnodion: PENDERFYNWYD cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mai, 2008: (i) Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (ii) Cyfarfod Busnes

Trafodwyd y materion canlynol oedd yn codi o'r Cofnodion:-

Cofnod 2375 – Enwebu Is-gadeirydd ar gyfer 2008/09: Diolchodd y Cyng. M Evans i'r Cyngor am ei enwebu yn ei absenoldeb a chytunodd i dderbyn y swydd

Cofnod 2378 – dogfen ddrafft – Tai: Dwedodd y Cyng. R Owen ei fod yn gobeithio rhoi adroddiad ar y ddogfen swmpus hon yn y cyfarfod nesaf.

Cofnod 2380 – Cod Ymddygiad: Yn y Sesiwn Hyfforddi yn Aberaeron ar 9fed Mehefin, a fynychwyd gan y Cyng. T Davies, D Sheppard a'r clerc, cyflwynwyd 'siart llif' wedi'i symleiddio i gyd-fynd â'r esboniad o'r cod newydd.

Rhoddwyd copi o'r siart llif i bob cynghorydd a chafwyd trafodaeth i ddilyn. Roedd rhywfaint o amwysedd ynghylch diddordeb personol. PENDERFYNWYD gofyn i'r Swyddog Monitro am eglurhad ar hynny.

Mae Un Llais wedi cadarnhau bod pob Cyngor yn gyfrifol am gyhoeddi Hysbysiad yn y wasg leol yn cadarnhau bod y cod wedi'i fabwysiadu a'i fod ar gael i'w archwilio. PENDERFYNWYD cydymffurfio.

Cofnod 2384 - Cynllun Gwella Hawliau Tramwy: Rhoddodd y Cyng. Trefor Davies grynoded o gynnwys y cynllun drafft. PENDERFYNWYD peidio â chyflwyno unrhyw sylwadau.

2404 Adroddiadau Cyfarfodydd a fynychwyd gan Aelodau'n cynrychioli'r Cyngor Cymuned:

Gweithgor Neuadd y Penrhyn: Adroddodd y Cyng. Walker fod yr holiadur yn cael ei argraffu a bydd yn barod i'w ddsbarthu'n fuan. Gobeithir ei osod ar Wefan Cymuned Trefeurig ar gyfer y rhai sydd am ymateb yn electronig

PATRASA: Dwedodd y Cyng. Price fod digwyddiad llwyddiannus i godi arian wedi'i gynnal yn ddiweddar. Trefnwyd sesiwn o glirio a thacluso'r cae chwarae ar gyfer dydd Iau 26 Mehefin am 6.30 pm.

Grŵp Datblygu Ysgol Trefeurig: Nid oedd y Cyng. Owen yn gallu mynychu'r cyfarfod. Adroddodd y Cyng. Walker fod y Grŵp Datblygu'n trefnu cyfarfod gyda chynrychiolydd o Adran Eiddo Ceredigion i drafod goblygiadau gwerthu tŷ'r ysgol. Anfonwyd llythyr i Geredigion gan y Cyngor Cymuned yn cefnogi'r Grŵp Datblygu (Ymddiheurodd y Cyng. G Price a gadawodd y Cyfarfod)

Derbyniwyd ac ystyriwyd yr ohebiaeth/dogfennau canlynol:

2405 Un Llais Cymru: Gwahoddiad i'r Aelodau i helpu ar y Stondin yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd, Awst 2 – 9. PENDERFYNWYD nodi.

2406 CCB a Chynhadledd Un Llais Cymru: Ym Mhafiliwn Bont ar 11eg Hydref 2008. PENDERFYNWYD enwebu'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd i fynychu (£60 yr un) a pheidio â chyflwyno unrhyw gynigion.

2407 Canolfan Gymunedol Trefeurig: Gwahoddiad i aelod o'r Cyngor i fynychu Cyfarfod ar 17eg Medi 2008. PENDERFYNWYD enwebu'r Cyng. D Jones. Nodwyd hefyd bod gan y Ganolfan Gymunedol ei gwefan ei hun erbyn hyn:

www.ysgoltrfeurig.org.uk

2408 Cyngor Cefn Gwlad Cymru – Cylchlythyr. PENDERFYNWYD ei ddsbarthu.

- 2409 Trefnydd Balchder yn ein Cymuned – Ceredigion:** Cylchlythyr yn amlinellu ymdrechion sy'n anelu at leihau sbwriel o fewn y Sir. PENDERFYNWYD ei nodi.
598
- 2410 Airtricity:** Hysbysiad bod Airtricity ynghyd â Dulas Cyf. o Fachynlleth yn bwriadu gwneud cais cynllunio i ddatblygu fferm wynt yn ardal Nant-y-Moch. PENDERFYNWYD ei nodi.
- 2411 Prime Cymru - Cydlynnydd Her Wledig:** Ymholiad ynghylch grwpiau 50+ o fewn y gymuned a allai fod â diddordeb mewn manylion ynghylch cymorth a chyfleoedd i wirfoddoli. PENDERFYNWYD ymateb.
- 2412 Corff Llywodraethol Ysgol Penrhyn-coch:** Gwahoddiad i enwebu cynrychiolydd i wasanaethu am bedair blynedd o 28ain Awst 2008. PENDERFYNWYD ail-enwebu'r Cyng. D M Hughes.
- 2413 Rhoserchan, Penrhyn-coch:** Gwahoddiad i ddatlu 20fed pen-blwydd ar 02.08.08. PENDERFYNWYD enwebu'r Cyng. D Jones.
- 2414 Ombwdsman – Adroddiad Blynnyddol.** PENDERFYNWYD ei basio i'r Cyng. D M Hughes.
- 2415 Newidiadau Arfaethedig i'r GIG yng Nghymru – Dogfen Ymgynghorol.** PENDERFYNWYD ei derbyn
Materion Ariannol:
- 2416 HSBC – Balans Cyfrif Cymunedol ar 13 Mai 2008: £11,942.31**
- 2417 Allianz Insurance:** dyfynbris yswiriant ar gyfer eitemau a brynwyd yn ddiweddar:- £66.56 + £3.33 treth premiwm yswiriant - **£69.89.** PENDERFYNWYD derbyn y dyfynbris.
- 2418 Meinciau Cymunedol:** Mewn ymateb i'r hysbyseb yn gwahodd dyfynbrisiau ar gyfer gosod y 4 mainc PENDERFYNWYD derbyn yr amcanbris o £220.00.
- 2419 Cais am Roddion Ariannol dan A137:** PENDERFYNWYD ystyried yr holl geisiadau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.
- 2420 Cais gan berson ifanc lleol am gymorth ariannol i fynychu cwrs Theatr Ieuencid:** PENDERFYNWYD gwneud ymholiadau ynghylch nawdd posib.
Cytunwyd i dalu'r Anfonebau canlynol:-
- 2421 Crosswood Computer Services:** Uwchraddio a chyflenwi meddalwedd gwarchod ar gyfer glianiadur y Cyngor - £42.54+TAW £7.44: **£49.98** (siec 859)
- 2422 L Griffiths – cyfieithiadau Mai 08: £91.35** (siec 860)
- 2423 Un Llais Cymru – Tâl Cynhadledd 2008 ar gyfer 2 Aelod:£120** (siec 861)
- 2424 Bil BT hyd 11 Mehefin 08 – galwadau/rhent/taliadau - £88.24+TAW £14.66: £102.90** (siec 862)
- 2425 P Walker – cyflog Ebrill/Mehefin 2008: £600.73** (siec 863)
- 2426 Cyng. T Davies – Teithio i Sesiwn Hyfforddi ym Mhenmorfa, Aberaeron + 2 deithiwr ar 9/06/08: £28.47+ elfen TAW 67c: £29.14**(siec 868). Canslwyd siec 864
- 2427 Viking Direct - 5 rîm o bapur copïo - £9.45 + TAW £1.65: £11.10** (siec 865)
- 2428 Allianz Insurance -** PENDERFYNWYD derbyn y dyfynbris o £66.56 + treth premiwm y.f. i yswirio eitemau ychwanegol a thalu ar ôl derbyn yr anfoneb.
- 2429 Cambrian News:** PENDERFYNWYD gosod yr Hysbysiad Cod Ymddygiad a thalu ar ôl derbyn yr anfoneb.
Ystyriwyd y Ceisiadau Cynllunio canlynol:
- 2430 A080442 - 1 Glanseilo, Penrhyn-coch - estyniad:** Dim gwrthwynebiad
- 2431 A080516 - Ger y Nant, Penrhyn-coch - estyniad i'r strwythur:** Dim gwrthwynebiad
- 2432 A080573 – Llain Pendorlan, Penbontthydybeddau – 2 annedd:** Mae'r safle o fewn ffiniau'r pentref ac ni chafwyd unrhyw wrthwynebiad i'r cais hwn
- 2433 A080582 - 3 Pen y Berth, Penrhyn-coch - gwelliannau ac estyniad - dim gwrthwynebiad**
- 2434 A080585 - Blaencastell, Penrhyn-coch - Paneli solar - dim gwrthwynebiad**
- 2435 Cyfarfod Nesaf y Cyngor** PENDERFYNWYD cynnal y Cyfarfod nesaf ar ddydd Mawrth, 29ain Gorffennaf, 2008 am 7.00 pm yn Neuadd y Penrhyn.
- 2436 Cytunwyd i gynnwys y canlynol ar yr agenda nesaf:**
Penrhyn-coch: Digwyddiadau'n ymwneud â phlant ar y ffordd ger mynedfa'r Cae Chwarae.
Cais am system Flaenoriaeth ar groesffordd IGER. Arwydd ffordd ger croesffordd IGER yn cwmpo. Cloriau draenau ar y ffordd i'r dwyrain o'r Clwb Pêl-droed yn

ansefydlog. Arwydd Maes y Felin ar goll. Arolwg goleuadau - dilyniant. Pobl yn gyrru'n rhy gyflym.

Penbonturhydybeddau: Ymyl y ffordd yn suddo gyferbyn â'r ysgol a Phendorlan. Parcio ceir. Ymholiad ynghylch newid cyfeiriad post. Gwrych wedi gordyfu yn gwneud hi'n anodd gweld. Cerbydau trwm yn defnyddio Lôn Bwlich-y-Dderwen.

Banc y Darren: Cais am hysbysfwrdd. **Capel Dewi:** Gwrych wedi gordyfu'n gwneud hi'n anodd gweld ar y gyffordd.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.40 pm.